# PWYLLGOR SAFONAU 11 Chwefror, 2009

**YN BRESENNOL: AELODAU ETHOLEDIG:** Y Cynghorwyr Margaret Griffith a Steven Churchman.
(Cytunodd y Cynghorydd Steven Churchman i fod yn bresennol fel sylwedydd yn unig er sicrhau'r cworwm angenrheidiol dan y rheoliadau perthnasol)

**AELODAU ANNIBYNNOL:** Mr John Pollard (Cadeirydd), a Mr Gwilym Ellis-Evans

**AELOD PWYLLGOR CYMUNEDOL:** Mr A.M.D.Clay

**HEFYD YN BRESENNOL:** Dilys Phillips (Swyddog Monitro), Siôn Huws (Swyddog Priodoldeb) ac Ioan Hughes, (Swyddog Pwyllgor).

**Ymddiheuriadau:** Y Cynghorydd Keith Greenly-Jones, Mr Malcolm Jones, a Mr Sam Soysa.

**Croeso –** Croesawyd y Cynghorydd Steven Churchman a oedd yn mynychu cyfarfod o'r pwyllgor am y tro cyntaf.

**Gwellhad Buan :** Dymunwyd gwellhad buan i Mr Sam Soysa a oedd yn absennol oherwydd salwch.

## 1. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Datganodd yr aelodau lleyg canlynol fuddiant personol yn eitem 5 ar y rhaglen, 'lwfansau i Aelodau,' –
Mr John Pollard
Mr Gwilym Ellis Evans
Mr. A.M.D. Clay.

Nodwyd bod eithriad penodol yn bodoli o fewn y Cod Ymddygiad a bod hawl gan yr aelodau i gymryd rhan yn y drafodaeth a phleidleisio ar y mater.

Datganodd Mr A.M. D. Clay fuddiant personol yn eitem 7 ar y rhaglen, (Honiadau yn Erbyn yr Aelodau) oherwydd bod gwybodaeth ganddo am rai o'r honiadau a wnaed ond ni adawodd y cyfarfod gan na chododd trafodaeth ar y mater.

## 2. COFNODION

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn, a gynhaliwyd ar 9 Medi 2008, fel rhai cywir.

## 3. LWFANSAU I AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn cyfeirio at reoliadau newydd ar lwfansau aelodau a gyflwynwyd yn 2007.

Yn sgil y rheoliadau, sefydlwyd Panel Annibynnol i Gymru ar Gydnabyddiaeth Aelodau. Mae'r Panel yn gyfrifol am wneud argymhellion i awdurdodau lleol Cymru ynglŷn ag uchafsymiau lwfansau aelodau.

Yn ogystal, 'roedd y rheoliadau yn cyflwyno lwfans newydd i aelodau cyfetholedig sydd hefo pleidlais. Mae hyn felly yn effeithio ar holl aelodau cyfetholedig ar y Pwyllgor Safonau.

Adroddodd y Swyddog Monitro ymhellach fod y Panel wedi cyhoeddi ei argymhellion cyntaf yn Awst 2008 a bod y rheoliadau newydd wedi dod i rym yn niwedd Rhagfyr 2008.

O'r dyddiad hwnnw ymlaen diddymwyd yr hawl lwfans colled ariannol a chyflwynwyd y lwfans newydd i aelodau cyfetholedig yn ei le. Yng nghyfarfod Rhagfyr 2008 derbyniodd Cyngor Gwynedd argymhellion y Panel Annibynnol a gosod lwfans aelodau cyfetholedig ar ddwy lefel gyda'r rhai sy'n cadeirio pwyllgor yn derbyn £1,450 a'r aelodau eraill yn derbyn £760 yn flynyddol.

Nodwyd y gellir gwrthod y lwfans a bod amgylchiadau'n bodoli ar adegau pan fo rhai yn dymuno gwneud hynny. Cadarnhawyd y bydd swyddog o'r Cyngor yn cysylltu hefo aelodau lleyg y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol agos i gasglu manylion pellach.

Ychwanegodd y Swyddog Monitro fod dau gynrychiolydd o'r Panel Annibynnol yn ymweld â Gwynedd ar 6 Mai 2009 i gasglu manylion ynglŷn â'r gyfun drefn lwfansau yn ei chyfanrwydd. Maent yn dymuno cyfarfod nifer o bobl gan gynnwys Cadeirydd y Pwyllgor Safonau ac aelodau annibynnol eraill ar gyfer casglu rhai manylion.

**PENDERFYNWYD:**

i) **nodi'r newidiadau i'r gyfundrefn lwfansau ac effaith hyn ar aelodau cyfetholedig**

ii) **bod Cadeirydd y Pwyllgor Safonau, Mr John Pollard, ynghyd â Mr Gwilym Ellis-Evans a Mr A.M. D. Clay yn cyfarfod aelodau o Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol ar 6 Mai, 2009.**

## 4. CANLLAWIAU AR Y COD YMDDYGIAD

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Monitro yn nodi y byddai rhannau o'r Cod Ymddygiad, sydd wedi bod mewn grym ers naw mis bellach, yn elwa o ganllawiau.
'Roedd Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn gofyn barn ar y canllawiau arfaethedig ac yr oedd cyfle i aelodau'r Pwyllgor Safonau ystyried ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad a derbyn y cyfle i ddylanwadu ar y canllawiau.

Rhoddwyd sylw i'r mannau canlynol o fewn y Cod Ymddygiad yn unigol:

***Paragraff 4(c) - diffiniad bwlio.***

'Roedd yr Ombwdsmon wedi datgan barn fod trafodaeth wleidyddol gadarn rhwng aelodau neu gydag uwch swyddogion yn annhebyg o gael ei ystyried fel ymddygiad sy'n bwlio. Er hyn, byddai'n debygol o edrych yn wahanol ar sefyllfa os yw'n ymwneud ag aelod iau o staff.

'Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn anodd tynnu llinell bendant rhwng ymddygiad derbyniol a'r hyn fyddai'n cael ei ystyried yn fwlio, a bod ffin annelwig yn cael ei gosod gan yr Ombwdsmon.

Mynegwyd yr awydd i bawb gael yr hawl i ddatgan barn, ond y dylid dangos parch wrth wneud hynny.

**Penderfynwyd y dylid cryfhau'r canllawiau gan nodi ei bod yn deg i leisio barn ond bod angen dangos parch wrth wneud hynny ac na ddylid gwneud sylwadau personol.**

***Paragraff 7 (b) (v)ac (vi) defnyddio adnoddau yn amhriodol at ddibenion gwleidyddol neu breifat.***

Awgrymwyd y dylai Awdurdodau Lleol allu penderfynu os caniateir i'r cyfleusterau a ddarperir ganddynt gael eu defnyddio at ddibenion preifat neu wleidyddol ac y dylai 'amhriodol' gael ei ddehongli yng ngoleuni polisi'r awdurdod.

Cyfeiriwyd yn arbennig at liniaduron a nododd y Swyddog Monitro fod gan Gyngor Gwynedd bolisi pendant ar sut i ymdrin â defnydd o adnoddau. Ychwanegodd y gellid derbyn fod aelodau yn ymddwyn yn unol â'r Cod Ymddygiad os ydynt yn dilyn polisi'r awdurdod unigol.

'Roedd aelod am fynd gam ymhellach a mynnu na fyddai aelod yn cael gwneud unrhyw ddefnydd preifat o adnoddau sy'n cael eu cyflenwi gan awdurdodau. Credai aelodau eraill y byddai defnyddio adnoddau, lle na fyddai manteision ariannol yn bodoli, yn dderbyniol.

**Penderfynwyd :**

**i) derbyn canllawiau lle byddai awdurdodau yn gosod ffiniau Cod Ymddygiad ar sail polisïau eu hunain**

ii) **bod y canllawiau yn tynnu gwahaniaeth rhwng y cyfnod yn arwain at etholiadau lleol pan fydd defnydd o adnoddau'r Cyngor yn arbennig o sensitif) a chyfnodau eraill.**

***Paragraff 8 – Yr angen i roi sylw i gyngor swyddogion***

Esboniodd y Swyddog Monitro fod gwahaniaeth amlwg yn bodoli yma rhwng yr angen i roi sylw i gyngor swyddog a'r rheidrwydd i ddilyn y cyngor.

Nododd y byddai'n rhesymol i gynghorwyr wneud penderfyniad yn groes i gyngor swyddog, ond y dylid rhoi rheswm dros wneud hynny gyda'r rheswm yn cael ei gofnodi.

Cyfeiriodd aelodau at sefyllfaoedd o'r fath sy'n digwydd droeon mewn pwyllgorau cynllunio.

**Penderfynwyd derbyn y canllawiau a nodir er sicrhau fod aelodau'n rhoi sylw ac yn dallt cyngor swyddog ac yn rhoi rheswm, a fyddai'n cael ei gofnodi, dros ddiystyru cyngor.**

***Paragraff 10(2) (b) – gwrthdaro rhwng buddiannau lleol a rhai'r Cyngor cyfan.***

'Roedd y Swyddog Monitro o'r farn fod hwn yn un o'r mannau mwyaf heriol o'r cod newydd. Ychwanegodd y gellid dehongli'r paragraff mewn gwahanol ffyrdd, ac o'i ddarllen yn gwbl lythrennol ni fyddai modd i aelod amddiffyn ei ward pan fo angen.

Fodd bynnag, cafwyd esboniad yng Nghynhadledd Pwyllgorau Safonau yn ddiweddar fod y paragraff yn berthnasol i sefyllfa pryd mae gan aelod awdurdod dirprwyedig i wneud penderfyniad arno. Byddai'r dehongliad yma yn gwbl wahanol

**Penderfynwyd galw am ganllawiau pendant gyda sylw arbennig yn cael ei roi i sefyllfa pan mae aelod dan bwysau sylweddol gan ei etholwyr i gymryd barn arbennig sy'n groes i farn y Cyngor.**

***Paragraff 10(2) (c) – cysylltiad personol agos***

Nodwyd bod y mater yma wedi cael cryn sylw yn y gorffennol a bod ffiniau a osodir gyda'r geiriau 'cysylltiad personol agos' yn aneglur.

Pwysleisiwyd bod y trafferthion yn hynod amlwg mewn ardaloedd gwledig lle mae llawer o bobl yn adnabod ei gilydd ac yn aelodau o'r un mudiadau. 'Roedd aelodau'r Pwyllgor Safonau yn awyddus i gael gwybodaeth o'r prawf o'r hyn mae'r Ombwdsmon yn bwriadu ei ddilyn o fewn y Cod Ymddygiad newydd.

**Penderfynwyd:**

i) **galw am ganllawiau ac arweiniad ar y dehongliad o bwy sy'n cyfrif fel person y mae gan aelod 'gysylltiad personol agos' ag ef.**

ii) **tynnu sylw at sefyllfaoedd mewn ardaloedd yn y Gymru wledig lle mae llawer o bobl yn adnabod ei gilydd.**

***Paragraff 11(1) - datgelu buddiannau ar lafar***

Nodwyd yr anhawster a allasai godi ar adegau pan fydd angen i holl aelodau'r Cyngor ddatgan buddiant pan fo'r buddiant yn gyffredin i bob aelod.

Galwodd y Swyddog Monitro ar i aelodau'r Pwyllgor Safonau gefnogi cais i'r Ombwdsmon wneud canllawiau fyddai'n golygu na fyddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei dorri pe byddai buddiant, fyddai'n gyffredin i bawb, yn cael ei ddatgan yn swyddogol. Byddai hyn yn osgoi'r sefyllfa lle byddai angen i bob aelod ddatgan buddiant yn unigol.

Cadarnhawyd y byddai angen i'r aelodau gwblhau ffurflen yn parhau.

**PENDERFYNWYD:**

- **i) gwneud cais i'r Ombwdsmon wneud canllawiau fyddai'n golygu na fyddai'r Cod Ymddygiad yn cael ei dorri pe byddai buddiant, fyddai'n gyffredin i bawb, yn cael ei ddatgan yn swyddogol.**
- **ii) nodi y byddai'r angen i aelodau lenwi ffurflen yn unigol er mwyn datgan y buddiant.**

***Paragraff11(3) – cofnodi buddiannau mewn taflenni Penderfyniad***

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y drefn a ddilynir gan Gyngor Gwynedd ar hyn o bryd. Dywedodd fod peth dryswch yn bodoli ac y byddai'n fuddiol cael arweiniad ynglŷn â'r angen i nodi datganiad o fuddiant personol ar daflenni penderfyniadau. Ychwanegodd y Swyddog y byddai canllawiau yn sicrhau fod pob Cyngor yng Nghymru yn gweithredu yn yr un modd.

**PENDERFYNWYD gofyn am ganllawiau er sicrhau fod pob Cyngor yng Nghymru'n gweithredu yn yr un modd.**

***Paragraffau 12 (2) (ii) a (iii) – eithriadau o fuddiannau sy'n rhagfarnu ar gyfer aelodaeth o gyrff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus neu gyrff mae'r aelod yn cynrychioli'r awdurdod arnynt.***

Adroddodd y Swyddog Monitro y byddai'n fuddiol cael dehongliad o'r term 'corff sy'n arfer swyddogaethau o natur gyhoeddus'. Ychwanegodd y gallasai nifer o aelodau gredu fod aelodaeth o gyrff fel hyn fod yn wasanaeth cyhoeddus ac na fyddai o fudd personol neu ariannol iddynt hwy. O gofio hyn gellid dweud y byddai'n deg iddynt gymryd rhan mewn trafodaeth a allasai effeithio ar y mudiad.

Pwysleisiodd aelodau'r Pwyllgor Safonau fod diffyg ffin bendant yma a byddai'n fuddiol cael canllawiau.

Cyfeiriwyd ymhellach at sefyllfaoedd mewn cymunedau lle y gallasai sefyllfa'r Cynghorau Cymuned fod yn gwbl wahanol i'r hyn sy'n wynebu cynghorau sir llawer mwy. Fel enghraifft cyfeiriwyd at sefyllfa pryd mae'r cyngor cymuned yn rhedeg y neuadd bentref neu'r cae chwarae. Pe byddai'r holl aelodau'n gorfod datgan buddiant bersonnol, ni fyddai'r gwaith yn cael ei gyflawni.

**PENDERFYNWYD:**
**i) cefnogi bod angen canllawiau ar y mater yma**
**ii) nodi nad oedd gan y pwyllgor farn benodol parthed y llwybr i'w ddilyn ond bod yr aelodau'n tueddu i gefnogi'r farn y dylai aelodau gael cymryd rhan mewn trafodaeth os ydynt hefyd yn aelodau o fudiadau eraill lle nad oes buddiant ariannol na buddiant o safbwynt ceisiadau cynllunio yn bodoli**
**iii) mynegi'r awydd i wahaniaethu rhwng sefyllfa cynghorau cymuned bychain a sefyllfa chynghorau sir mawr, gan nodi, yn yr ymateb i'r Ombwdsmon, enghreifftiau o sefyllfaoedd le y gallasai'r gwahaniaeth fod yn amlwg.**

***Paragraffau 13 ac 14 (3) – aelodau o'r Bwrdd a Phwyllgorau Craffu***

Adroddodd y Swyddog Monitro ar y drefn sy'n bodoli yng Nghyngor Gwynedd ar hyn o bryd. Nid oedd yr aelodau'n gweld angen i alw am unrhyw newid .

**PENDERFYNWYD peidio galw am ganllawiau a gadael i'r Cyngor ddehongli'r drefn yn unol â'r sefyllfa leol.**

***Cyffredinol***

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at gynghorau cymuned sy'n gweithredu mewn cyfarfodydd heb y fantais o gyngor cyfreithiol proffesiynol. O ganlyniad ceir trafferthion wrth weithredu'r drefn o ddatgan buddiant yn gywir. Yn ychwanegol, dim ond cyfran fechan o gynghorwyr cymuned a lwyddodd i fanteisio ar sesiynau hyfforddi ar y cod newydd.
Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor safonau y byddai canllawiau i gynorthwyo'r cynghorau cymuned o fudd.

**PENDERFYNWYD gwneud cais i'r Ombwdsmon drefnu canllawiau syml ar gyfer y cynghorau cymuned oherwydd eu bod yn gorfod gweithredu'r drefn o ddatgan buddiant heb y fantais o gyngor cyfreithiol proffesiynol.**

## 5. HONIADAU YN ERBYN AELODAU

Cyflwynodd y Swyddog Priodoldeb adroddiad y Swyddog Monitro yn hysbysu'r aelodau o fanylion honiadau a dderbyniwyd drwy law'r Ombwdsmon. Cyflwynir gwybodaeth yn rheolaidd i'r Pwyllgor Safonau am honiadau o'r fath.

Derbyniwyd saith o honiadau a nodwyd bod tri o'r rhain yn gysylltiedig ag un aelod o gyngor cymuned. Nodwyd bod yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio i ddau o'r honiadau yma ond y byddai'n ymchwilio i'r trydydd.

'Roedd dau honiad arall yn ymwneud ag un aelod o gyngor tref. Nid oedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu os oedd am ymchwilio i'r cwynion yma.

Gwnaed un o'r honiadau eraill yn erbyn cynghorydd tref a'r llall yn erbyn aelod sirol. Gyda'r ddau achos 'roedd yr Ombwdsmon wedi penderfynu peidio ymchwilio.

Mewn ymateb i ymholiadau eglurodd y swyddog y modd y caiff y drefn ei gweithredu a chadarnhawyd fod Cyngor Gwynedd yn derbyn gwybodaeth am yr holl honiadau a gyflwynir i'r Ombwdsmon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.**

## 6. CEISIADAU AM OLLYNGIAD GAN AELODAU O GYNGOR CYMUNED LLANFROTHEN.

Cyflwynwyd adroddiad y Swyddog Priodoldeb yn nodi cefndir y ceisiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf a dderbyniwyd oddi wrth Gyngor Cymuned Llanfrothen.

Ystyriodd y Pwyllgor Safonau geisiadau a wnaed gan y cyngor cymuned ym mis Medi 2008. 'Roedd y cais yn gysylltiedig â chau swyddfeydd post, a Swyddfa Bost Llanfrothen yn benodol, oedd wedi ei leoli yn siop y pentref. 'Roedd rhai aelodau o'r Cyngor Cymuned ar fwrdd rheoli Menter Llanfrothen, sy'n berchen ar y siop, a rhai wedi buddsoddi yn y fenter.

Penderfynodd y Pwyllgor Safonau ym Medi 2008 ganiatáu gollyngiad i'r aelodau oedd heb fuddiant ariannol yn y fenter ond gwrthod ceisiadau'r rhai oedd wedi gwneud buddsoddiad. Nodwyd bod modd ail-gyflwyno cais pe byddai trafferthion yn codi, ond byddai angen cael ychwaneg o wybodaeth.

Mewn llythyr oddi wrth Gyngor Cymuned Llanfrothen nodwyd bod y sefyllfa wedi gwaethygu gan fod holl aelodau'r Cyngor fuddsoddiadau yn y fenter. Nodwyd ymhellach ganddynt fod y Swyddfa Bost bellach wedi cau a bod hyn yn effeithio ar siop y pentref. Ychwanegwyd yn y llythyr fod aelodau'r Cyngor Cymuned yn awyddus i gymryd rhan flaenllaw i sicrhau dyfodol y siop ond nad oes modd gwneud hyn dan yr amgylchiadau presennol. Pwysleisiwyd ganddynt i'r Fenter gael ei sefydlu er ceisio cadw'r swyddfa bost a siop y pentref ar agor yn hytrach na gweithredu fel cwmni i wneud elw.

Cyfeiriodd y Swyddog Priodoldeb yn arbennig at baragraff 2(a) o'r Rheoliadau sy'n galluogi caniatáu gollyngiad ar sail fod '*gan ddim llai na hanner aelodau'r awdurdod perthnasol … mae'r busnes i gael ei ystyried ganddo fuddiant sy'n berthnasol i'r buddiant hwnnw.'*

Mynegwyd pryder gan nad oedd gwybodaeth fanwl wedi ei gyflwyno gyda'r cais. Nodwyd nad oedd swm y gwahanol fuddsoddiadau'n cael ei nodi ac y gallasai fod cyn lleiad a £10. Cadarnhaodd y Swyddog Priodoldeb ei fod wedi gwneud ymholiadau i'r mater yma a'i fod wedi derbyn gwybodaeth fod y symiau'n amrywio.

Nodwyd gan aelod arall mai ymdrech oedd yma i weithio er budd y gymuned ac nad oedd buddiant personol i'w ystyried. Gofynnodd a oedd yn rhesymol cyfeirio at gyfraniad aelodau'r Cyngor Cymuned fel buddsoddiad gan na fyddant yn elwa ohono.

Wrth ystyried newidiadau ers i Gyngor Llanfrothen gyflwyno'r cais gwreiddiol, nodwyd bod y Swyddfa Bost yn fater pwysig bryd hynny, ond nad oedd yn bodoli bellach.

Nid oedd cyfeiriad at fater penodol oedd y cyngor cymuned am ei drafod a nodwyd gan y Swyddog Priodoldeb fod y ceisiadau'n cael eu cyflwyno fel mater cyffredinol. Esboniodd y Swyddog Monitro fod eithriad penodol yn eu galluogi i gyfrannu hyd at £500 i gefnogi'r Fenter leol.

**PENDERFYNWYD:**

i) **gwrthod ceisiadau am ollyngiad i aelodau o Gyngor Cymuned Llanfrothen ar sail fod gan yr aelodau fuddiant ariannol oherwydd eu buddsoddiad yn y fentere, nad oedd gwybodaeth wedi ei derbyn ynglŷn â pha fater y dymunai'r Cyngor ei drafod, a bod rhai hawliau trafod yn bodoli'n barod.**

ii) **rhoi gwybod i Gyngor Cymuned Llanfrothen bod eithriad penodol fyddai'n eu galluogi i drafod rhai materion yn gysylltiedig â'r fenter gan gynnwys y posibilrwydd o gyfrannu cefnogaeth o hyd at £500 tuag at y fenter.**

## 7. AELODAETH

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at drafferthion sy'n codi'n gyson parthed y rheolau statudol gyda chworwm.
Mewn ymdrech i ymdrin â'r broblem, awgrymodd y gellid cyflwyno cais i'r Cyngor i gael recriwtio un aelod lleyg ychwanegol.
Mewn ymateb i ymholiad, nodwyd y byddai hyn yn cael ei wneud drwy hysbysebu.

**PENDERFYNWYD bod y Swyddog Monitro yn cyflwyno cais i'r Cyngor i gael recriwtio un aelod lleyg ychwanegol i wasanaethu ar y Pwyllgor Safonau.**

Dechreuodd y cyfarfod am 11am a daeth i ben am 12:45pm